

Memorandwm Esboniadol i Reoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022

Lluniwyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan Lywodraeth Cymru ac fe'i gosodir gerbron Senedd Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Rheoliadau Deddf y Coronafeirws 2020 (Newid Dyddiad Dod i Ben) (Cymru) 2022

Mark Drakeford AS

Y Prif Weinidog

22 Mawrth 2022

1. Disgrifiad

Mae'r Rheoliadau yn diwygio [Deddf y Coronafeirws 2020 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk).

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn bod y gofynion sydd wedi'u nodi yn Neddf y Coronafeirws 2020 ("y Ddeddf"), fel y'u diwygiwyd gan y Rheoliadau hyn, yn angenrheidiol ac yn gymesur fel ymateb iechyd y cyhoedd i'r bygythiad presennol a achosir gan y coronafeirws.

Y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol

Er bod y Ddeddf yn cyffwrdd â hawliau unigol o dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998 a'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, mae'r Llywodraeth yn credu bod modd eu cyfiawnhau er mwyn atal lledaeniad clefydau heintus a/neu y caniateir yr ymyrraeth gan fod nod dilys i'r ymyrraeth honno, sef diogelu iechyd y cyhoedd. Mae'r Llywodraeth hefyd yn credu bod y Rheoliadau yn gymesur.

Mae Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf (diogelu eiddo) ac Erthygl 2 o'r Protocol Cyntaf (hawl i addysg) yn erthyglau allweddol o'r ECHR sy'n cael eu cynnwys gan ddarpariaethau'r Ddeddf sy'n cael eu hymestyn.

Mae pob un o'r rhain yn hawliau amodol, sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd ag arfer yr hawliau os yw hynny'n angenrheidiol mewn cymdeithas ddemocrataidd er budd diogelwch y cyhoedd neu er mwyn diogelu iechyd. Rhaid cyfiawnhau unrhyw gyfryw gyfyngiadau a gofynion ar sail y ffaith eu bod yn anelu at gyflawni nod dilys, sef diogelu iechyd y cyhoedd a'u bod yn gymesur. Rhaid i unrhyw achos o ymyrryd â'r hawliau hyn hefyd gael ei gydbwyso â rhwymedigaethau cadarnhaol y Wladwriaeth o dan Erthygl 2 (hawl i fywyd). Mae addasu darpariaethau'r Ddeddf drwy'r Rheoliadau hyn yn ymateb cymesur i ledaeniad coronafeirws. Mae'n cydbwyso'r angen i barhau i ymateb i'r bygythiad a berir gan y coronafeirws mewn ffordd briodol â hawliau unigolion a busnesau, mewn ffordd sy'n parhau i fod yn gymesur â'r angen i ostwng cyfraddau trosglwyddo'r coronafeirws, gan ystyried y dystiolaeth wyddonol.

3. Y cefndir deddfwriaethol

Mae'r pŵer i wneud y Rheoliadau yn adran 90(2) o'r Ddeddf, sy'n caniatáu i'r "awdurdod cenedlaethol perthnasol" ymestyn darpariaethau'r Ddeddf drwy reoliadau. O dan adran 90(7) o'r Ddeddf, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod cenedlaethol perthnasol mewn perthynas â'r pŵer i estyn dyddiad dod i ben darpariaeth yn y Ddeddf sy'n rhychwantu Cymru a Lloegr ac sy'n gymwys o ran Cymru, ac a fyddai o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru pe bai wedi ei chynnwys mewn Deddf gan Senedd Cymru (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth na ellid ond ei gwneud â chydysniad un o Weinidogion y Goron o fewn ystyr "Minister of the Crown" yn Neddf Gweinidogion y Goron 1975). Mae adran 94(2) a (6) yn darparu bod yn rhaid i'r Rheoliadau gael eu cymeradwyo gan y Senedd o fewn 40 diwrnod i'w gwneud, neu byddant yn peidio â bod yn effeithiol.

Mae angen y Ddeddf fel rhan o ymdrech ar y cyd ledled y DU i fynd i'r afael â haint COVID-19. Y bwriad yw y bydd yn galluogi'r bobl gywir o gyrff cyhoeddus ledled y DU i gymryd camau priodol ar yr adegau cywir i reoli effeithiau'r haint. Mae'r [nodiadau esboniadol](#) yn cynnwys rhagor o fanylion am y Ddeddf.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Mae'r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud mewn ymateb i'r bygythiad i iechyd y cyhoedd o ganlyniad i fynychder a lledaeniad coronafeirws syndrom anadlol aciwt difrifol 2 (SARS-CoV-2) sy'n achosi'r clefyd a adwaenir fel COVID-19.

Mae'r Rheoliadau yn diwygio'r Ddeddf, a fydd yn weithredol o 23 Mawrth 2022 gan ddod i ben ar ddiwedd y dydd ar 24 Medi 2022.

1) Adran 38 (Atodlen 17) – Parhad dros dro: addysg, hyfforddiant a gofal plant (Cymru)

Mae'r ddarpariaeth hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi cyfarwyddiadau parhad dros dro i sefydliadau addysgol, darparwyr gofal plant cofrestredig ac awdurdodau lleol sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gymryd camau rhesymol – neu gamau penodol y mae Gweinidogion Cymru o'r farn eu bod yn rhesymol – mewn cysylltiad â darparu addysg, hyfforddiant, gofal plant (neu wasanaethau sy'n ymwneud â'r rhain), neu wasanaethau a chyfleusterau ategol, am gyfnod penodedig.

Cyn rhoi'r cyfarwyddyd, rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i unrhyw gyngor gan Brif Swyddog Meddygol Cymru (neu ei ddirprwyon) sy'n ymwneud ag achosion o'r coronafeirws neu ei drosglwyddiad, a rhaid iddo benderfynu bod rhoi'r cyfarwyddyd yn gam angenrheidiol a chymesur ar gyfer y ddarpariaeth barhaus, neu mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth barhaus, fel y bo'n berthnasol, o addysg, hyfforddiant neu ofal plant ac ati. Mae hefyd yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi hysbysiadau i ddatgymhwyso neu addasu, am gyfnod o un mis, unrhyw ofynion statudol penodol mewn addysg a gofal plant, pan fo Gweinidogion Cymru o'r farn bod dyroddi'r hysbysiad yn gam priodol a chymesur o dan yr holl amgylchiadau sy'n ymwneud ag achosion o'r coronafeirws neu ei drosglwyddo.

Er nad oes unrhyw ofyniad i ymestyn y darpariaethau ar gyfer gofal plant na'r darpariaethau ar gyfer Addysg Uwch neu Addysg Bellach, efallai y bydd angen ystyried pwerau i ysgolion anghymhwyso neu addasu rhai gofynion os bydd tarfu sylweddol o ganlyniad i COVID yn ystod y flwyddyn academaidd hon.

2) Adran 82. Tenantiaethau busnes yng Nghymru a Lloegr: amddiffyniad rhag fforffedu ac ati.

Mae adran 82 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth na chaniateir gorfodi hawl i ailfynediad neu fforffediad, o dan denantiaeth fusnes berthnasol, am beidio â thalu rhent, drwy weithredu neu fel arall, yn ystod y "cyfnod perthnasol". Un o'r rhesymau dros gyflwyno'r moratoriwm oedd i gyfyngu ar yr effaith sylweddol ar fusnesau yn sgil y gyfres o ymyriadau a chyfyngiadau a osodwyd ar economi Cymru drwy gydol y

pandemig. Cafodd y darpariaethau hyn eu cynnwys fel ymyriad i fynd i'r afael â'r materion – yn enwedig llif arian.

Diwedd y cyfnod perthnasol ar gyfer y ddarpariaeth hon oedd 30 Mehefin 2020 i ddechrau. Ers hynny mae Gweinidogion Cymru wedi cytuno i estyn y moratoriwm sawl gwaith. Y tro diwethaf, cafodd y "cyfnod perthnasol" mewn perthynas â Chymru ei estyn tan 25 Mawrth 2022 gan Reoliadau Tenantiaethau Busnes (Estyn Gwarchodaeth rhag Fforffediad etc.) (Cymru) (Coronafeirws) (Rhif. 3) 2021. Mae hyn wedi darparu amddiffyniad i denantiaid busnes perthnasol yn ogystal â darparu amser ar gyfer datblygu'r Bil Rhent Masnachol (Coronafeirws) ("y Bil").

Y cynnig i ymestyn Adran 82 yw rhoi cyfle parhaus i Weinidogion Cymru ymestyn y cyfnod perthnasol os ystyrir bod angen hynny yng nghyd-destun y Bil.

5. Ymgynghori

O ystyried y bygythiad difrifol ac uniongyrchol sy'n codi o'r coronafeirws a'r angen am ymateb iechyd y cyhoedd brys, ni fu ymgynghoriad cyhoeddus mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

6. Asesiad effaith rheoleiddiol ac asesiadau eraill

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Yn unol â'r Cod, ni chynhaliwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn, oherwydd bod angen eu rhoi yn eu lle ar frys.

O ystyried bod y Rheoliadau diwygiedig hyn yn ymestyn y darpariaethau presennol, mae'r asesiad effaith a gynhaliwyd wrth gyflwyno'r Ddeddf yn parhau'n ddilys. <https://www.gov.uk/government/publications/coronavirus-action-plan>